Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru
North Wales Choral Festival

Newyddion yr Ŵyl

Rhifyn 2 - Awst 2008

Mae 2008 yn nodi 21ain pen-blwydd Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru ac i ddathlu'r llwyddiant hwn mae trefnwyr wedi datblygu gwefan newydd (www.northwaleschoralfestival.co.uk), a fydd yn helpu i ddatblygu'r ŵyl a rhoi gwybod amdani i fwy o gorau ledled y DU ac Iwerddon!

Y Gleision

Mae corau'n gallu cael gwybodaeth am y lleoliad, y dref, llety, beirniaid a llawer mwy ar y wefan newydd. Hefyd, rŵan, gallent lawrlwytho ffurflenni cystadlu a rheolau a rheoliadau yn uniongyrchol ar-lein. Rydym yn sylweddoli bod corau yn brysur iawn gydol misoedd yr haf ac felly rydym wedi ymestyn y dyddiad terfyn tan ddydd Gwener 26 Medi.

Cynhelir gŵyl eleni ddydd Sadwrn 8 Tachwedd yn Venue Cymru, Llandudno.

Mae pedwar dosbarth: ieuenctid; cymysg; merched a chorau meibion. Mae corau'n cystadlu am wobrau gwerth £2,500, gydag enillydd pob dosbarth yn cymryd rhan yng nghyngerdd yr enillwyr gyda'r nos lle fyddent yn cystadlu am dlws yr enillydd cyffredinol.

Roedd cystadleuwyr y llynedd yn cynnwys Ysgol Glanaethwy o Ogledd Cymru sydd wedi mynd o nerth i nerth ac sy'n dal i fod yn bresenoldeb cryf yn 'Last Choir Standing' y BBC.

Côr Iau Glanaethwy

Felly dewch draw, mwynhewch yr ŵyl ryfeddol hon a gweld yr harddwch sydd gan Gogledd Cymru i'w gynnig!

Isod mae geirdaon o ddigwyddiad 2007:

"Digwyddiad wedi'i drefnu'n dda gyda gwybodaeth barod ar gael wedi'i darparu gan staff allweddol bob amser"

Cynrychiolydd Y Gleision

"Hon oedd ein cystadleuaeth gorawl gyntaf ac roeddem wedi mwynhau'r profiad yn llwyr"

Merfyn Walters
Ysgrifennydd Y Dreigiau

"Mae Llandudno'n neis iawn - mae'r bobl yn gyfeillgar iawn ac yn barod i helpu!"

Vera Byrne
Glenalua Singers

I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch Alun Pritchard ar 01492 575948 neu anfonwch neges e-bost at alun.pritchard@conwy.gov.uk

Gyda diolch i'n noddwyr:

Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol
County Borough Council

Stena Line